

---

## BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH

---

Dydd Llun, 11 Ebrill 2016, am 2.00 pm  
Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru, Llanelwy

---

<b>YN BRESENNOL:</b>	Bethan Jones (Cadeirydd)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
<b>AELODAU STATUDOL</b>	Iwan Davies  Y Cyngorydd Dilwyn Roberts Mohammed Mehmet Cyngorydd Hugh Jones Simon Smith  Sian Williams	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC)  Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC)  Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
<b>CYFRANOGWYR A WAHODDWDYD</b>	Wendy Jones  Andy Jones Mark Pierce Tracey Owen Sioned Rees	Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Heddlu Gogledd Cymru (HGC) Cwmni Adsefydlu Cymunedau Cymru Llywodraeth Cymru (LIC)
<b>Swyddogion:</b>	Sian Harland  Euros Jones Nicola Kneale  Fran Lewis  Nigel McCann  Shan Morris  Hannah Rigby	Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor (CBSC) Rheolwr Partneriaethau (CNC) Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad (CSDd) Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol (CBSC) Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol (BIPBC) Rheolwr Cynllunio Corfforaethol (GTAGC) Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Lleol (CBSC)

### 1. **PENODI CADEIRYDD**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod Bethan Jones (Cyfarwyddwr Ardal - BIPBC) yn cael ei phenodi'n Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer 2016/2018.

Cytunwyd ymhellach bod penodi Cadeirydd yn rôl ar gyfer yr unigolyn ac nid y sefydliad.

**PENDERFYNWYD-**

**Bod Bethan Jones (Cyfarwyddwr Ardal - BIPBC) yn cael ei phenodi'n Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer 2016/2018 a bod y penodiad ar gyfer yr unigolyn ac nid y sefydliad.**

**2. PENODI IS-GADEIRYDD**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod Iwan Davies (Prif Weithredwr - CBSC) yn cael ei benodi'n Is-Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer 2016/2018.

Fel gyda phenodi'r Cadeirydd, roedd penodi Is-Gadeirydd yn rôl ar gyfer yr unigolyn ac nid y sefydliad.

**PENDERFYNWYD-**

**Bod Iwan Davies (Prif Weithredwr - CBSC) yn cael ei benodi'n Is-Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer 2016/2018 a bod y penodiad ar gyfer yr unigolyn ac nid y sefydliad.**

**3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Dim

**4. DERBYN CYFRANOGWYR A WAHODDWDYD I YMUNO Â'R BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS YN FFURFIOL**

Gwahoddwyd y Cyfranogwyr a Wahoddwyd canlynol a gwnaethant gytunodd i ymuno â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych:-

- Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy - Prif Swyddog (Wendy Jones)
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol – Pennaeth Uned Cyflenwi Lleol (Andy Jones)
- Heddlu Gogledd Cymru - Ditectif Uwcharolygydd (Mark Pierce)
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru - Pennaeth Uned Cyflenwi Lleol Gogledd Cymru (Tracey Owen)
- Llywodraeth Cymru - Uwch Was Sifil (Sioned Rees)

Nodwyd bod cadarnhad yn dal i gael ei ddisgwyl gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau.

Roedd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) wedi dosbarthu llythyr i'r Byrddau Gwasanaethau Lleol, yn rhoi gwybod am eu

hymrwymiad i weithio gyda phartneriaid lleol a budd-ddeiliaid allweddol a chadarnhau derbyn y gwahoddiad i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ymuno â'r Bwrdd. Er bod y llythyr wedi ei gyflwyno yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, cytunwyd y byddai'r llythyr yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd.

Mewn perthynas â'r Aelodau Statudol, nodwyd y byddai Andrew Jones (Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus) yn cynrychioli Cadeirydd BIPBC, gyda Bethan Jones fel cynrychiolydd y Prif Swyddog.

#### **PENDERFYNWYD-**

**Y dylid cytuno ar y Cyfranogwyr a Wahoddwyd fel a ganlyn:-**

- **Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy**
- **Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol**
- **Heddlu Gogledd Cymru**
- **Cwmni Ail Sefydlu Cymunedol Cymru**
- **Llywodraeth Cymru**

#### **5. CYMERADWYO'R CYLCH GORCHWYL**

Cyflwynwyd y Cylch Gorchwyl drafft i bartneriaid, ac roedd angen ei drafod a'i gymeradwyo.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau eu bod yn fodlon, er bod angen cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl, byddai yn cael ei adolygu wrth i'r Bwrdd symud ymlaen.

Y weithdrefn ar gyfer gwahodd pobl i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r bwrdd

O'r rhestr o 'Aelodau Eraill', cytunwyd y dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru fod yn Bartner a Wahoddwyd, gan fod gan y sefydliad rôl mor drawsbynciol mewn perthynas â Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Nodwyd bod Andrew Jones, Iechyd Cyhoeddus Cymru, eisoes yn aelod o'r Bwrdd, ond yn rhinwedd ei swydd fel cynrychiolydd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Gellid gwahodd pob 'Aelod Arall' wrth i'r Bwrdd ddatblygu blaenoriaethau ac wrth iddo gael ceisiadau i gynorthwyo gyda gwaith â ffocws, a oedd yn defnyddio arbenigedd y sefydliadau hynny.

Gallai'r 'Partneriaid a Wahoddwyd' gael eu hadolygu yn rheolaidd er mwyn sicrhau fod gan y Bwrdd yr arbenigedd i symud ymlaen â'i flaenoriaethau.

Cytunwyd y dylid anfon llythyr at Iechyd Cyhoeddus Cymru yn eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol fel 'Partner a Wahoddwyd'. Awgrymwyd ymhellach fod llythyr yn cael ei anfon at gynbartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI) yn diolch iddynt am eu cyfraniad yn y gorffennol i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ac yn eu cynghori y byddai aelodaeth y Bwrdd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac efallai y byddant yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y dyfodol.

## Y gweithdrefnau ar gyfer cynnwys pobl sydd â buddiant â gwella lles mewn ardal

Cytunwyd i gael gwared ar y geiriad siaradwyr Cymraeg o baragraff 6.1, gan fod y Gymraeg yn iaith gyfartal yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

## Aelodaeth

Roedd statws Aelodaeth y Bwrdd o ran Aelodau Statudol, Cyfranogwyr a Wahodddwyd a Partneriaid Eraill yn aneglur a dylid ei egluro yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

## Pleidleisio

Trafododd partneriaid pwy ddylai gael hawliau pleidleisio, a ddylai fod yn Aelodau Statudol yn unig neu a ddylai gynnwys Cyfranogwyr a Wahodddwyd, er mwyn gwneud y Bwrdd yn gynhwysol. Roedd pryderon pe bai Cyfranogwyr a Wahodddwyd hefyd gyda hawliau pleidleisio, gallent bleidleisio dros gynnig, na chafodd ei gefnogi gan yr Aelodau Statudol, sydd â'r ddyletswydd statudol. Fodd bynnag, nodwyd os byddai'r sefyllfa hon yn digwydd roedd y Bwrdd yn gwrthdaro ac nid oedd yn gweithio. Fel ffordd ymlaen, cytunwyd y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno mewn perthynas â'r gwahanol senarios ar gyfer hawliau pleidleisio ar gyfer aelodau'r Bwrdd. Awgrymwyd ymhellach fod yr adroddiad yn cynnwys y wybodaeth am hawliau pleidleisio Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill.

## Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Cytunwyd bod y pwyntiau bwled canlynol yn cael eu hychwanegu at Baragraff 10.1 mewn perthynas â rôl y Cadeirydd:-

- Datrys anghytundebau
- Cadw trefn dda

## Cyfarfodydd

Mewn perthynas â pharagraff 11.5, y byddai cyfarfodydd y Bwrdd wedi eu cau, cytunwyd y gallai'r Bwrdd gael cyfarfod blynyddol, a oedd yn agored i'r cyhoedd.

## Cefnogaeth Weinyddol

Dywedwyd wrth bartneriaid bod rhaid i Awdurdodau Lleol darparu cymorth gweinyddol i'r Bwrdd, ond yn wahanol i'r cynllun grant gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, nid oedd unrhyw adnoddau penodol eraill ar gyfer y Bwrdd. Nodwyd byddai'n rhaid adolygu'r adnoddau ar gyfer blaenoriaethau er mwyn darparu a chyflawni'r blaenoriaethau hynny ynghyd ag unrhyw ffrydiau ariannu posibl.

Dywedodd y Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol (Fran Lewis - CBSC), wrth Bartneriaid fod cais am grant gan Lywodraeth Cymru o

£45,000 wedi bod yn llwyddiannus, i gefnogi datblygu asesiad o weithgareddau Lles ac ymgysylltu, ond bod hyn i fod i gael ei rannu rhwng holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru.

### Gwrthdaro Buddiannau

Cytunwyd i aralleirio paragraff 16.1 er mwyn egluro beth fyddai'n gyfystyr â gwrthdaro buddiannau.

### Craffu

Cyflwynwyd papur opsiynau i bartneriaid ar gyfer y gwahanol senarios ar gyfer craffu ar waith y Bwrdd. Nodwyd bod Cynghorwyr Sir Ddinbych ffafrio Opsiwn 2, a oedd i barhau i ddefnyddio trefniadau craffu ar wahân ond gyda pherthynas waith agosach.

Mynegwyd pryder gan sefydliadau Gogledd Cymru y gallent orfod mynychu 6 chyfarfod ar wahân, pob un yn trafod yr un mater. Felly awgrymwyd y gallai'r posibilrwydd o drefniant craffu Gogledd Cymru ar gyfer y Bwrdd gael ei archwilio.

Fel ffordd ymlaen, cytunwyd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd â'r opsiynau ar gyfer trefniant craffu ar y cyd rhwng Conwy a Sir Ddinbych a'r posibilrwydd o drefniant craffu Gogledd Cymru.

### **PENDERFYNWYD-**

- (a) Bod y Cylch Gorchwyl yn cael ei ddiwygio fel y manylir uchod.**
- (b) Bod rhagor o wybodaeth yn cael ei chyflwyno i'r cyfarfod nesaf mewn perthynas â:-**
  - **Aelodaeth**
  - **Hawliau pleidleisio**
  - **Trefniadau Craffu**
- (c) Bod llythyrau yn cael eu hanfon at lechyd Cyhoeddus Cymru yn eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol fel 'Partner a Wahoddwyd' ac i gynbartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI) yn diolch iddynt am eu cyfraniad yn y gorffennol i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ac yn dweud wrthynt y byddai aelodaeth y Bwrdd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac efallai y byddant yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y dyfodol.**

## **6. BLAENORIAETHAU'R BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS I'W CYNNAL YN YSTOD 2016-18**

Trafododd y Bwrdd y blaenoriaethau i'w cyflawni yn ystod 2016/2018.

Nodwyd bod gan y ddwy sir Gynllun Integredig Sengl a byddai Gordewdra Phlentyndod yn cael ei ddatblygu gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Roedd angen i unrhyw flaenoriaeth ychwanegu gwerth at y gwaith a wneir eisoes gan yr holl Bartneriaid. Roedd hefyd yn bwysig bod modd cyflawni'r blaenoriaethau.

Fel ffordd ymlaen cytunwyd i drefnu Is-grŵp Gweithdy, a fyddai'n caniatáu i gynrychiolwyr fynychu, er mwyn cytuno ar rai blaenoriaethau gyda ffocws, y gellid eu darparu drwy ddull partneriaeth.

**PENDERFYNWYD-**

**Bod Gweithdy Is-Grŵp cael ei drefnu i lunio blaenoriaethau ar gyfer y Bwrdd.**

**7. AMSERLEN AMLINELLOL AR GYFER YR ASESIAID LLES A'R CYNLLUN LLES (GAN GYNNWYS GWEITHGAREDDAU YMGYSYLLTU)**

Cafodd amserlen amlinellol ar gyfer yr Aseiad Lles a Chynllun Lles ei gyflwyno a gofynnwyd i Bartneriaid gytuno ar y rhestr o ymgysylltu.

Os byddai'r holl Bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd gallent ymgysylltu â chymunedau a chasglu data drwy ddefnyddio terminoleg generig, yn hytrach na bod pob sefydliad ar wahân yn ymgysylltu ar yr un pryd â'r cyhoedd.

Gan fod angen i'r holl Bartneriaid ddiffinio meysydd ymgysylltu ac amserlen, awgrymwyd y gallai'r mater hwn gael ei drafod yn y Gweithdy Is-grŵp.

Awgrymwyd ymhellach bod Grŵp Ymgysylltu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei sefydlu, yn dilyn adolygiad o'r aelodaeth a gan ddefnyddio'r un fformiwla â'r Grŵp Ymgysylltu Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Bod yr amserlen ar gyfer yr Atodlen Amlinellol ar gyfer yr Aseiad Lles a Chynllun Lles (gan gynnwys Gweithgareddau Ymgysylltu) yn cael eu trafod yn y Gweithdy Is-grŵp.**

**(b) Bod Grŵp Ymgysylltu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei sefydlu, yn dilyn adolygiad o'r aelodaeth a gan ddefnyddio'r un fformiwla â'r Grŵp Ymgysylltu Bwrdd Gwasanaethau Lleol.**

**8. DATBLYGU RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL AR GYFER BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS**

Cytunwyd y byddai'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn cael ei ddatblygu yn dilyn y Gweithdy Is-Grŵp.

**PENDERFYNWYD-**

**Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn cael ei ddatblygu yn dilyn y Gweithdy Is-Grŵp.**

9. **UNRHYW FATER ARALL**

Dim.

10. **DYDDIAD CYFARFODYDD YN Y DYFODOL**

Cytunwyd y byddai cyfarfod nesaf y Bwrdd yn cael ei gynnal ym mis Medi 2016.

(Daeth y cyfarfod i ben am 4.00 pm)

---